Clerc/Clerk: Anwen Jones
Cyfeiriad/Address: 10 Gorffwysfa, Dwyran, Ynys Mon, LL61 6YJ
Ffon/Tel: 07375781090
E-bost/E-mail: valleycommunitycouncil@gmail.com
Gwefan: www.cyngor-cymuned-fali.cymru
Website: www.valley-community-council.wales

Cofnodion cyfarfod Cyngor Cymuned Y Fali a gynhaliwyd nos Fercher 17/12/2025 am 7.00yh

Minutes of Valley Community Council meeting held on Wednesday 17/12/2025 at 7.00pm

**Presennol**
Cynghorwyr:

| | |
|---|---|
| N Tuck (Cadeirydd) | G Browne MBE (Is-Gadeirydd) |
| M Swaine Williams | K Taylor (hefyd yn Gynghorydd Sir) |
| A Walker | C Thornhill |
| C Carter | E Jones |

**Present**
Councillors:

| | |
|---|---|
| N Tuck (Chair_ | G Browne MBE (Vice-Chair) |
| M Swaine Williams | K Taylor (also a County Councillor) |
| A Walker | C Thornhill |
| C Carter | E Jones |

**Hefyd yn bresennol**
Cynghorydd Sir G Jones
A Jones Clerc

**Also present**
County Councillor G Jones
A Jones Clerk

208/2525 **Croeso a Sylwadau Agoriadol**
Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

Diolchodd y Cadeirydd y glanhawr ffenestri a fu'n ddiweddar yn glanhau'r lloches fws yn Llanynghenedl. Cadarnhawyd bod llythyr o ddiolch wedi'i anfon ato am ei waith.

Hysbyswyd aelodau y byddai Padre Mike Hall yn ymuno a'r ddiwedd y cyfarfod. Byddai'n rhoi cyflwyniad byd ar ei wasanaeth i'r gymuned wrth iddo baratoi i ymadael ar gyfer ei swydd newydd yn California. Dymunodd y Cyngor fynegi eu diolch am ei gyfraniad gwerthfawr i'r gymuned.

Cymerodd y Cadeirydd y cyfle i ddiolch i'r holl aelodau am eu gwaith caled, ey hymrwymiad a'u hymroddiad drwy gydol y flwyddyn. Nodwyd ei bod wedi bod yn flwyddyn brysur a chynhyrchiol i'r Cyngor a'r clerc newydd, ac roedd ymdrechion yr aelodau wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol. Mynegodd y Cadeirydd hefyd ei ddiolch diffuant i bartneriaid y Cyngor, y grwpiau gwirfoddol a'r busnesau lleol am eu cyfraniad gwerthfawr i'r gymuned, ac estynnodd ei ddymuniadau gorau iddynt ar gyfer llwyddiant parhaus yn y flwyddyn i ddod.

**Welcome and Opening Remarks**
Everyone was welcomed to the meeting by the Chair.

The Chair expressed his thanks to the window cleaner who has recently cleaned the bus shelter in Llanynghenedl. A letter of thanks has been sent to him for his work.

Members were informed that Padre Mike Hall shall attend at the end of the meeting. He would deliver a short presentation on his service to the community as he prepares to leave for his new posting in California. The Council wished to express their gratitude for his valuable contribution to the community.

The Chair took the opportunity to thank all members for their hard work, commitment and dedication throughout the year. It was noted that it had been a busy and productive year for the Council and the new clerk, and members' efforts had made a significant difference. The Chair also expressed sincere thanks to the Council's partners, voluntary groups and local businesses for their valuable contributions to the community, and extended his best wishes for the continued success in the year ahead.



Arwyddwyd / Signed:

Cadeirydd / Chair

Dyddiad / Date: 07/01/2026

Yn olaf, estynnodd y Cadeirydd ei ddymuniadau cynhesaf i'r aelodau a'u teuluoedd ar gyfer y Nadolig ac anfonodd ei ddymuniadau gorau ar gyfer y Flwyddyn Newydd.

Finally, the Chair offered warmest wishes to members and their families for Christmas and extended best wishes for the New Year.

209/2526 **Derbyn Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr C Z Tattersall, W Rogerson MBE, H Williams, S Williams a Hywel Hughes, Cyfieithydd.
Cyn/Eil: NT/GB

**To accept apologies**

Apologies accepted by Councillors C Z Tattersall, W Rogerson MBE, H Williams, S Williams and Hywel Hughes, Translator.
Prop/Sec: NT/GB

210/2526 **Derbyn Datgan Buddiant Personol a/neu Rhag farnol**

Datganodd y Cyng. K Taylor fuddiant personol ond di-ragfarn ar yr holl faterion cynllunio fel Cadeirydd Pwyllgor Cynllunio'r Cyngor Sir.

**To receive Declaration of Personal and/or Prejudicial Interest**

Cllr. K Taylor declared a personal but non prejudicial interest on all planning matters as Chair of the County Council's Planning Committee.

211/2526 **Caniatáu i'r cyhoedd siarad ar unrhyw eitem ar yr agenda neu ofyn cwestiynau (3 munud)**

Dim aelod o'r cyhoedd yn bresennol

**To allow the public to speak on any items on the agenda or ask questions (3 minutes)**

No members of the public present

212/2526 **Diweddariad SCCH**

Dim diweddariad

**PCSO Update**

No updates

213/2525 **Cadarnhau cofnodion cyfarfod 19/11/2025**

Penderfynwyd derbyn y cofnodion fel cofnod gwir a chywir.
Cyn/Eil: MSW/GB

**To confirm minutes of meeting 19/11/2025**

Resolved to accept the minutes as a true and accurate record.
Prop/Sec: MSW/GB

214/2526 **Materion yn codi o'r cofnodion**

Dim

**Matters arising from minutes**

None

215/2526 **Cadarnhau cofnodion cyfarfod Pwyllgor Parciau 30/10/2025 a 27/11/2025**

Penderfynwyd derbyn y cofnodion 30/10/2025 fel cofnod gwir a chywir
Cyn/Eil: KT/NT

Penderfynwyd derbyn cofnodion 27/11/2025 fel cofnod gwir a chywir
Cyn/Eil: EJ/MSW

**To confirm minutes of the Parks Committee 30/10/2025 and 27/11/2025**

Resolved to accept the minutes of 30/10/2025 as a true and accurate record.
Prop/Sec: KT/NT

Resolved to accept the minutes of 27/11/2025 as a true and accurate record.
Prop/Sec: EJ/MSW

216/2526 **Cadarnhau cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ynys Wen 04/11/2025**

Penderfynwyd derbyn y cofnodion fel cofnod gwir a chywir.
Cyn/Eil: KT/EJ

**To confirm minutes of the Ynys Wen Committee 04/11/2025**

Resolved to accept the minutes as a true and accurate record.
Prop/Sec: KT/EJ

217/2526 **Cadarnhau cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cyllid a Phersonnel 06/11/2025**

Penderfynwyd derbyn y cofnodion fel cofnod gwir a chywir.
Cyn/Eil: GB/KT

**To confirm minutes of the Finance & Personnel Committee 06/11/2025**

Resolved to accept the minutes as a true and accurate record.
Prop/Sec: GB/KT

218/2526 **Derbyn Balans Cyfrifon hyd ar 30/11/2025**

| | |
|---|---|
| Cyfrif Elusennol – Busnes | £18,114.48 |
| Cronfa Wrth Gefn – Busnes | £22,180.88 |
| Cyfrif Elusennol – Ynys Wen | £8,534.59 |
| Cronfa Wrth Gefn – Ynys Wen | £3,584.32 |
| **Cyfanswm** | **£52,414.27** |
| Arian busnes ar gael 30/11/2025 - | £18,114.48 |

Mae'r balansau uchod yn cynnwys derbyniadau o'r refeniw canlynol:

| | |
|---|---|
| £10,000.00 | CSYM – Grant Cronfa Gwella Mannau Chwarae 2025-2026 |
| £100.00 | Heddlu – Grant Atal Troseddu |

Penderfynwyd derbyn y balansau fel rhai cywir yn unol a Rheoliadau Ariannol Cyngor Cymuned y Fali
Cyn/Eil: KT/MSW

**To Accept Balance of Accounts on 30/11/2025**

| | |
|---|---|
| Business – Charitable Account | £18,114.48 |
| Business – Reserves | £22,180.88 |
| Ynys Wen – Charitable Account | £8,534.59 |
| Ynys Wen Reserves | £3,584.32 |
| **Total** | **£52,414.27** |
| Business funds available 30/11/2025 - | £18,114.48 |

The above balances include receipt of the following revenue:

| | |
|---|---|
| £10,000.00 | IOACC - Play Space Improvement Fund 2025-2026 Grant |
| £100.00 | Police – Crime Prevention Grant |

Resolved to accept balances as correct in accordance with Valley Community Council Financial Regulations.
Prop/Sec: KT/MSW

219/2526 **Cymeradwyo taliadau fel a ganlyn:**

| | |
|---|---|
| £100.00 | Rhodd – Grwp Cymunedol Y Fali S137 LGA 1972 Penderfyniad 199/2526.3 |
| £48.00 | Humphreys Waste & Recycling – Cae Chwarae Tachwedd 2025 |
| £36.00 | Humphreys Waste & Recycling – Ynys Wen Tachwedd 2025 |
| £24.00 | Humphreys Waste & Recycling – Parc Mwd Tachwedd 2025 |
| £741.60 | Liam Jones/AGC Anglesey Groundcare Services – Torri Gwair Hydref 2025 |
| £792.00 | Liam Jones/AGC Anglesey Groundcare Services – Llwybrau Tachwedd 2025 |
| £21.00 | A Jones – Gweinyddol Rhagfyr 2025 |
| £885.33 | A Jones – Cyflog Rhagfyr 2025 |
| £3,885.60 | G L Jones – Cynnal offer cae chwarae Lon Spencer yn unol ag awgrymiadau adroddiad ROSPA |

Ag unrhyw fil arall yn ddyledus ar 17/12/2025

**To approve payments as follows:**

| | |
|---|---|
| £100.00 | Donation – Valley Community Group S137 LGA 1972 Resolution 199/2526.3 |
| £48.00 | Humphreys Waste & Recycling – Play Area November 2025 |
| £36.00 | Humphreys Waste & Recycling – Ynys Wen November 2025 |
| £24.00 | Humphreys Waste & Recycling – Parc Mwd November 2025 |
| £741.60 | Liam Jones/AGC Anglesey Groundcare Services – Grass Cutting October 2025 |
| £792.00 | Liam Jones/AGC Anglesey Groundcare Services – Footpaths November 2025 |
| £21.00 | A Jones – Admin December 2025 |
| £885.33 | A Jones – Salary December 2025 |
| £3,885.60 | G L Jones – Repairs to Lon Spencer play area play equipment as per ROSPA report recommendations. |

Plus any bill that fall due by 17/12/2025



Arwyddwyd / Signed: [signature]

Cadeirydd / Chair

Dyddiad / Date: 07/01/2026

**Taliadau Uniongyrchol / Direct Debits**

| Cwmni/ Company | Mis/ Month | Cyflenwad/ Supply | Cyffredinol General | Parc Mwd | Cloc/ Clock | Ynys Wen | Maes Parcio Car Park |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cloudy Group | Rhag/ Dec | IT Support | £66.07 | | | | |
| British Gas | Rhag/ Dec | Trydan / Electric | | | £15.39 | | |
| Scottish Power | Rhag/ Dec | Trydan / Electric | | £56.82 | | | |
| CSYM/ IOACC | Rhag/ Dec | Treth Cyngor/ Council Tax | | £48.00 | | | £202.00 |

Penderfynwyd derbyn y taliadau fel rhai cywir ac fe'u hawdurdodwyd yn unol a Rheoliadau Ariannol Cyngor Cymuned y Fali.
Cyn/Eil: EJ/CT

Resolved to accept payments as correct and were authorised in accordance with the Valley Community Council Financial Regulations.
Prop/Sec: EJ/CT

220/2526 **Cylch Gorchwyl Grwp Gweithio**

Derbyniwyd trosolwg o'r Grwp Gweithio gan y Cyng. N Tuck, yn dilyn cylchredeg y manylion, gan gynnwys y cylch gorchwyl drafft, i'r aelodau ym mis Tachwedd.

Trafododd yr aelodau'r grwp gweithio ac ystyrwyd y pwrpas a'r aelodaeth.

Penderfynwyd cytuno mewn egwyddor i sefydlu'r grwp gweithio, gyda'r Cadeirydd a'r Clerc i ddiwygio'r telerau cylch gorchwyl i adlewyrchu y byddai aelodaeth unrhyw grwp gwaith newydd a gynhelir yn cael ei bennu gan y pwnc dan ystyriaeth. Cytunwyd ymhellach y byddai'r cylch gorchwyl yn cael eu hadolygu ym mis Mai 2026.

Cyn/Eil: MSW/GB

**Working Group Terms and Reference**

An overview of the proposed Working Group was received from Cllr N Tuck, following circulation of details, including the draft terms of reference, to members in November.

The members discussed and considered the group, including the purpose and membership.

Resolved to agree in principle to establish the working group, with the Chair and Clerk tasked with amending the terms of reference to reflect that membership of any newly convened working group would be determined by the subject matter. It was further agreed that the terms and reference would to be reviewed in May 2026.

Prop/Sec: MSW/GB

221/2526 **Adroddiad Bioamrywiaeth**

Cyflwynodd y Cadeirydd Adroddiad Bioamrywiaeth 2025. Nododd yr aelodau ddyletswydd statudol y Cyngor o dan Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau, ac wrth wneud hynny hyrwyddo gwydnwch ecosystemau, cyn belled ag sy'n gyson a chyflwyniad priodol y swyddogaethau hynny.

**Biodiversity Report**

The Chair presented the Biodiversity Report for 2025. Members noted the Council's statutory duty under Section 6 of the Environment Act Wales (2016), which requires all public bodies to seek to maintain and enhance biodiversity in the exercise of their functions, in so doing promote the resilience of ecosystems, in so far as this is consistent with the proper exercise of those functions.

Resolved to accept the biodiversity report and agreed to publish the report on our website, with the link



Arwyddwyd / Signed: Dyddiad / Date: 07/01/2026

Cadeirydd / Chair

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad bioamrywiaeth a chytunwyd y byddai'r adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan, gyda dolen yn cael ei rannu ag Un Llais Cymru, erbyn diwedd Rhagyr 2025, er mwyn ei hanfon ymlaen at Llywodraeth Cymru.

Mynegodd y Cyng. G Browne MBE ei ddiolch i Cyng. N Tuck ac aeth ymlaen i gydnabod faint o waith a fu ynghlwm wrth gynhyrchu'r adroddiad.

Cyn/Eil: MSW/KT

shared with One Voice Wales, by the end of December 2025, for onward submission to the Welsh Government.

Cllr G Browne MBE expressed his gratitude to Cllr N Tuck and acknowledged the significant amount of work involved in producing this report.

Prop/Sec: MSW/KT

222/2526 **Cynllun Bioamrywiaeth**

Eglurodd y Cadeirydd y byddai'r cynllun bioamrywiaeth ar gyfer y tair blynedd nesaf yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod llawn o'r Cyngor yn Ionawr. Anogodd yr aelodau i gyflwyno unrhyw awgrymiadau yr hoffent iddynt gael eu hystyried ar gyfer eu cynnwys yn y cynllun.

Penderfynwyd i drafod y cynllun bioamrywiaeth yn y cyfarfod llawn arferol nesaf.

Cyn/Eil: MSW/CC

**Biodiversity Plan**

The Chair explained that the biodiversity plan for the next 3 years would be presented at the January meeting of the full council. He encouraged members to submit any suggestions they wished to be considered for inclusion in the plan.

Resolved to discuss the biodiversity plan in the next ordinary full council meeting.

Prop/Sec: MSW/CC

223/2525 **Materion Plwyfol** | **Parochial Matters**

1. **Sedd Wag – Ward y Pentref**

Cynghorodd y clerc nad oedd unrhyw geisiadau wedi'u derbyn. Hysbyseb cyf-ethol gyda dydiad cau newydd o 14/01/2026 wedi'i hysbysebu.

**Vacant Seat – Village Ward**

The clerk advised that no applications had been received. Co-option notice with new closing date of 14/01/2026 advertised.

224/2526 **Ymgynghori ar geisiadau a penderfyniadau Cynllunio**

1. Ymgynghoriad Ceisiadau Cynllunio:

   1. LUE/2025/45 - Cais am Dystysgrif Datblygiad Cyfreithlon ar gyfer y defnydd presennol tir fel maes carafannau teithiol/gwersylla tymhorol am hyd at 30 o garafannau teithiol/pebyll ar dir yn / Maes Carafannau Pen y Bont Caravan Site, Pont Rhydybont, Y Fali - **Dim gwrthwynebiad.**
      Cyn/Eil: NT/CC

2. Penderfyniadau Cynllunio:

   1. Dim

**To Consult on Planning Applications & Decisions**

Planning Applications for Consultation:

1. LUE/2025/45- Application for a Lawful Development Certificate for the existing use of land as a seasonal touring caravan/campsite for up to 30 touring caravans/tents at Pen y Bont Caravan Site, /Four Mile Bridge, Valley - **No objection.**
   Prop/Sec: NT/CC

Planning Decisions:

1. None.



Arwyddwyd / Signed:     Dyddiad / Date: 07/01/2026

Cadeirydd / Chair

225/2526 **Gohebiaeth (wedi cylchredeg):**

1. CSYM – Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith – diweddariad Tachwedd 2025 **Nodwyd**
2. Morlais – gohirio cyfarfod grwp cyswllt cymunedol – dydd Mawrth 9 Rhagfyr. **Nodwyd**
3. Grwp Cymunedol Y Fali – coeden Nadolig. Nodwyd ac ystyriwyd y cynnwys. Cytunwyd y byddai coeden Nadolig 2026 yn cael ei drafod yn ffurfiol yng nghyfarfod nesaf y cyngor llawn.
   Nodwyd ymhellach, er gwaethaf y rhodd diweddar tuag at goeden Nadolig 2025, nad oedd y goeden eto wedi'i gosod.
   Penderfynwyd: Pe na bai'r goeden yn ei lle cyn y Nadolig, i roi awdurdod dirprwyiedg i'r clerc gysylltu a'r grwp i ofyn am ddychweliad y rhodd.
   Cyn/Eil: AW/KT
   Penderfynwyd yn unfrydol

**Correspondence (Circulated):**

1. IOACC – The Executive's forward work programme – November 2025 update. **Noted**
2. Morlais – postpone CLG meeting – 9th December. **Noted**
3. Valley Community Group – Christmas tree. The contents were noted and considered. It was agreed that the 2026 Christmas tree would formally be discussed at the next full council meeting.
   Members further noted that, despite the recent donation towards the 2025 Christmas tree, the tree had not yet been installed.
   Resolved: Should the tree not be in place before Christmas, the clerk to be delegated authority to contact the group to request the return of the donation.
   Prop/Sec: AW/KT
   Agreed unanimously

226/2526 **Ymgynghoriad (wedi cylchredeg):**

1. Un Llais Cymru - Ymgynghoriad ar y newidiadau i reolau etholiadau Llywodraeth Leol yng Nghymru. **Nodwyd**

**Consultation (Circulated):**

1. One Voice Wales - Consultation on the changes to Local Government elections rules in Wales. **Noted**

227/2526 **Derbyn adborth gan:**

1. Fforwm Gyswllt Cynghorau Tref a Chymuned *- 15/12/2025 wedi ganslo. Nesaf 04/02/2026*
2. ULlC: Pwyllgor Ardal Ynys - *Olaf 14/10/2025, nesaf 20/01/2026*
   *Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol UllC 21/01/2026*
3. Bwrdd Llywodraethwyr yr Ysgol – *dim cyfarfod wedi bod.*
4. Cynghrair Bro'r Llynnoedd – *cyflwynodd y Cyng. N Tuck gwefan y cynghrair, sydd bellach yn fyw. Croesawodd y Cadeirydd unrhyw adborth gan yr aelodau, gan gynnwys manylion am yr ardaloedd lleol i'w cynnwys ar y wefan.*

**To receive feedback from:**

1. Town and Community Council Liaison Forum *– 15/12/2025 cancelled. Next 04/02/2026.*
2. OVW: Ynys Mon Area Meeting - *Last held 14/10/2025, next 20/01/2026*
   *OVW Annual General Meeting 21/01/2026*
3. School Governing Board – *no meeting held.*
4. Bro'r Llynnoedd Alliance – *Cllr N Tuck presented the alliance's website, which is now live. The Chair welcomed any feedback from members, inlcuding details of local areas to be included on the website.*

228/2526 **Hyfforddiant**

Wedi cylchredeg gan y clerc. Clerc wedi rhoi gwybod am y cyfleon hyfforddiant am ddim gyda Un Llais Cymru ar hyn o bryd. Aelodau i adael i'r clerc wybod am unrhyw anghenion hyfforddiant.

**Training**

Circulated by the clerk. Clerk notified members of free training opportunities with One Voice Wales at the moment. Members to inform clerk of any training requirements

229/2526 **Eitemau i raglen y cyfarfod nesaf:**

1. Cyllideb 2026/27

**Items for the agenda of the following meeting**:

1. Budget 2026/27

230/2526 **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**: Cyfarfod arbennig am 7.00yh ar 07/01/2026 ar Teams.

**Date of Next Meeting**: Extraordinary meeting for 7.00pm on 07/01/2026 on Teams.

*Daeth y cyfarfod i ben am 8:01*

*The meeting ended at 8:01*



Arwyddwyd / Signed: [signature]

Cadeirydd / Chair

Dyddiad / Date: 07/01/2026